

Ysgol Mynydd Bychan

Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth

1 Nod a disgwyliadau

- 1.1 Un o brif amcanion ein hysgol yw sicrhau bod pob aelod o gymuned ein hysgol yn teimlo bod gwerth iddynt, eu bod yn cael eu parchu, a'u bod yn cael eu trin yn deg ac yn dda. Rydyn ni'n hybu gofal am ein gilydd ac yn ymddiriedaeth yn ein gilydd. Felly, mae polisi ymddygiad yr ysgol wedi ei gynllunio er mwyn hyrwyddo hawl pawb i fyw a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd ddiogel a chefnogol. Ein bwriad yw darparu amgylchfyd lle bydd pawb yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel.
- 1.2 Mae gennym nifer o reolau fel ysgol, ond nid ein prif amcan yw creu system er mwyn gweithredu rheolau. Mae'r polisi ymddygiad wedi ei gynllunio er mwyn hybu perthynas dda, fel bod pobl yn gallu gweithio gyda'i gilydd er mwyn cynorthwyo pawb i ddysgu. Mae'r polisi yno er mwyn annog pawb i weithio gyda'i gilydd mewn ffordd ystyrlon er mwyn cyfoethogi cymuned yr ysgol.
- 1.3 Mae'r ysgol yn disgwyl i bob aelod o'n cymuned i drin pobl eraill mewn ffordd ystyrlon.
- 1.4 Rydyn ni'n trin pob plentyn yn deg ac rydyn ni'n gweithredu'r polisi ymddygiad mewn ffordd gyson.
- 1.5 Nod y polisi yw helpu'r plant i dyfu mewn amgylchfyd ddiogel, er mwyn dod yn aelodau cadarnhaol, cyfrifol a chynyddol annibynnol o'r ysgol.
- 1.6 Rydyn ni fel ysgol yn chwilio am ac yn gwobrwyo ymddygiad da, er mwyn datblygu ethos o garedigrwydd a chyd-weithrediad. Nod y polisi yw hybu ymddygiad da, yn hytrach na dim ond cosbi ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

2 Gwobrwyo a chosbi

- 2.1 Rydyn ni'n canmol ac yn gwobrwyo plant am ymddwyn yn dda: fe'u canmolwn yn yr ystafell ddosbarth ac mewn gwasanaethau ysgol gyfan, e.e. rhoddwyd sticeri clod, tystysgrifau a phwyntiau llys am ddangos parch, cwrteisi, caredigrwydd, ymddygiad da, am ymdrech ac am waith da.

- 2.2 Rydyn ni'n cydnabod ymdrechion a chyrhaeddiadau plant, o fewn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol. Dathlwn lwyddiannau'r plant yn ein gwasanaethau Dathlu. Gwobrywn plant sy'n ymdrechu â'r iaith Gymraeg.**
- 2.3 Rydyn ni'n gweithredu nifer o sancsiynau er mwyn cynnal rheolau'r ysgol, ac er mwyn sicrhau awyrgylch dysgu ddiogel a chadarnhaol. Rydyn ni'n gweithredu pob sancsiwn mewn ffordd sy'n cyfateb i'r sefyllfa unigol.**
- Rydyn ni'n disgwyl i'r plant i wrando'n ofalus ar y cyfarwyddiadau yn yr ystafell ddosbarth. Os nad ydynt yn gwrando, rydyn ni'n gofyn iddynt symud sedd er mwyn bod wrth ymyl yr athro/athrawes, neu i eistedd ar eu pen eu hunain.**
 - Rydyn ni'n disgwyl i'r plant i ymgeisio eu gorau. Os nad ydynt, fe fyddwn yn gofyn iddynt wneud y dasg eto.**
 - Defnyddiwn system o oleuadau traffig. Os yw plentyn yn amharu ar y dosbarth, bydd yr athro/athrawes yn gofyn iddyn nhw beidio. Os yw plentyn yn parhau i gamymddwyn fe fyddwn yn symud ei enw o'r golau gwyrdd i'r golau oren, gan roi esboniad iddo/iddi pam mae ei enw yn symud i'r oren a'i atgoffa o reolau'r ysgol/dosbarth. Os yw'n parhau i gamymddwyn rhoddir enw'r plentyn ar y coch. Fe fyddwn yn gwahanu'r plentyn o weddill y dosbarth er mwyn rhoi cyfle iddo/iddi dawelu, er mwyn gallu ail-ddechrau gweithio'n synhwyrol.**
 - Mae diogelwch y plentyn yn hollbwysig ym mhob achos. Os yw ymddygiad plentyn yn gosod pobl eraill mewn perygl, bydd yr athro/athrawes ddosbarth yn stopio'r gweithgaredd ac yn atal y plentyn rhag cymryd rhan yng ngweddill y sesiwn.**
 - Os yw plentyn yn bygwth, yn niweidio neu yn bwlio disgybl arall, mae'r athro/athrawes dosbarth yn cofnodi'r digwyddiad a bydd y plentyn yn derbyn cosb. Os yw plentyn yn parhau i ymddwyn mewn ffordd sy'n tarfu ar, neu'n achosi pryder i eraill, bydd yr ysgol yn cysylltu gyda'r rhieni ac yn trefnu amser addas i drafod y sefyllfa, er mwyn gallu gwella ymddygiad y plentyn.**
- 2.4 Mae'r athrawon dosbarth yn trafod y rheolau gyda'r dosbarth. Yn ogystal â rheolau'r ysgol mae gan bob dosbarth eu côd ymddygiad, sy'n cael ei benderfynu trwy gytundeb y plant ac yn cael ei arddangos ar wal yr ystafell ddosbarth. Mae pob plentyn, felly yn ymwybodol o'r safon ymddygiad a ddisgwylir ganddynt. Os oes achos o ymddygiad gwrth-gymdeithasol, bydd yr athro/athrawes dosbarth yn trafod y peth gyda'r dosbarth cyfan.**
- 2.5 Nid ydym fel ysgol yn fodlon dioddef unrhyw fath o fwlio. Os byddwn yn darganfod bod gweithred o fwlio wedi digwydd, byddwn**

yn gweithredu'n syth er mwyn atal unrhyw barhad o fwlio. Er ei bod yn anodd iawn dileu bwlio'n llwyr, rydyn ni'n gwneud y cyfan sydd o fewn ein gallu i sicrhau bod y plant yn gallu dod i'r ysgol yn ddi-ofn.

2.6 Mae'r holl aelodau o'r staff yn ymwybodol o'r rheolau ynglŷn â defnydd athrawon o rym corfforol, fel y maent yn ymddangos yn y Ddogfen Canllawiau 097/2013 'Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau', yn ymwneud ag adran Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006: Defnyddio Grym i Reoli neu Atal Disgyblia. Nid yw ein hathrawon yn taro, gwrthio na slapio plant. Mae'r staff yn ymyrryd yn gorfforol yn unig er mwyn atal plentyn, neu er mwyn arbed plentyn rhag niwed, neu er mwyn rhwystro plentyn rhag niweidio ei hun neu eraill. Mae ein dulliau o weithredu yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

3 Rôl athrawon dosbarth

3.1 Cyfrifoldeb yr athrawon dosbarth yw sicrhau bod y rheolau ysgol yn cael eu cadw yn y dosbarth, a sicrhau bod eu dosbarth yn ymddwyn yn gyfrifol yn amser gwersi.

3.2 Mae ein hathrawon dosbarth yn disgwyl safon uchel o ymddygiad gan y plant. Maent yn ymdrechu i sicrhau bod y plant yn gweithio hyd eithaf eu gallu.

3.3 Mae'r athrawon dosbarth yn trin pob plentyn yn deg, ac mae'n gweithredu côd y dosbarth gyda chysondeb. Maent yn trin y plant gyda pharch a dealltwriaeth.

3.4 Os yw plentyn yn parhau i gam-ymddwyn yn y dosbarth mae'r athrawon dosbarth yn cadw cofnod o'r digwyddiadau. Ar y cychwyn, bydd yr athrawon dosbarth yn trin y digwyddiadau yn y ffordd arferol. Ond, os bydd yr ymddygiad yn parhau, bydd yr athrawon dosbarth yn gofyn am gymorth y Dirprwy Bennaeth. Os bydd yr ymddygiad yn parhau eto, yna bydd y pennaeth yn cael ei hysbysu.

3.5 Mae'r athrawon dosbarth yn cysylltu gydag asiantaethau allanol, fel bo'r angen, er mwyn cefnogi ac arwain datbygiad y plentyn. Er enghraifft, gellir trafod anghenion plentyn gyda'r gweithiwr cymdeithasol addysgiadol neu wasanaeth cefnogi ymddygiad yr AALI.

3.6 Mae'r athrawon dosbarth yn adrodd yn ôl i rieni ynglŷn â datblygiad plant, yn unol â pholisi'r ysgol gyfan. Gall yr athrawon dosbarth

gysylltu â rhiant os oes gofid arbennig am ymddygiad neu les plentyn.

4 Rôl y pennaeth

- 4.1 Cyfrifoldeb y pennaeth, yn ôl Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, yw gweithredu polisi ymddygiad yr ysgol mewn ffordd gyson ar hyd yr ysgol, ac adrodd yn ôl i lywodraethwyr, yn ôl y gofyn, ar effeithiolrwydd y polisi. Cyfrifoldeb y pennaeth hefyd yw diogelu iechyd, diogelwch a lles yr holl blant.**
- 4.2 Mae'r pennaeth yn cefnogi'r staff wrth iddynt weithredu'r polisi, ac wrth osod safonau ar gyfer ymddygiad.**
- 4.3 Mae'r pennaeth yn cofnodi unrhyw ddigwyddiad difrifol o gam-ymddygiad.**
- 4.4 Cyfrifoldeb y pennaeth yw gosod gwaharddiad dros dro ar blentyn mewn ymateb i gam-ymddygiad difrifol. Pan fydd enghreifftiau parhaus o gam-ymddygiad difrifol, gall y pennaeth eithrio plentyn yn llwyr. Rhaid hysbysu'r corff llywodraethol cyn y gall y camau yma ddigwydd.**

5 Rôl rhieni

- 5.1 Mae'r ysgol yn cyd-weithredu gyda rhieni, er mwyn sicrhau bod cysondeb yn y wybodaeth ynglŷn â disgwyliadau ymddygiad yn y cartref a'r ysgol.**
- 5.2 Rydyn ni'n esbonio'r rheolau yn y prospectws, a disgwyliwn i rieni eu darllen a'u cefnogi.**
- 5.3 Rydyn ni'n disgwyl i rieni gefnogi addysg eu plant, a chyd-weithredu gyda'r ysgol, yn unol â'r cytundeb ysgol-cartref. Rydyn ni'n ceisio creu deialog gadarnhaol rhwng yr ysgol a'r cartref, a rhoi gwybod i rieni'n syth os ydym yn poeni am les neu ymddygiad eu plentyn.**